CERDYN ARBENNIG MR JONES
Fe fydd yr athrawon yn anfon plant at Mr Jones ar adegau i ddangos gwaith da neu i egluro rhywbeth da maent wedi ei wneud. Fe fydd y plant yma yn cael cerdyn arbennig er mwyn ei ddangos i'w rhieni.

SPECIAL CARD FROM MR JONES
From time to time the children are asked by the teachers to show examples of good work or to talk about something special they've done. These children are given Mr Jones' special card to take home to show their parents.

STRATEGAETHAU ERAILL O HYRWYDDO YMDDYGIAD A LLES Y PLANT YN YSGOL NEFYN.
- Amser cylch– Cyfle wythnosol i'r plant drafod yn ddiogel yn eu dosbarthiadau.
- Blwch a cyfeiriad e bost cyfrinachol "Mae gen i".
- Grwp 'Siop Siarad Ni' - Bydd plant sydd angen ychydig o gefnogaeth ychwanegol wrth iddynt dyfu yn cael cyfle i ymuno gyda'r criw 'Siop Siarad Ni'.

OTHER STRATEGIES FOR PROMOTING GOOD BEHAVIOUR AND THE WELL BEING OF CHILDREN AT YSGOL NEFYN
- *Circle time—A weekly opportunity for children to discuss matters in safe and friendly environment.*
- *"I have got" box and e-mail address.*
- *'Talkabout' group—Children who require a little support as they grow will be invited to join the 'Talkabout' group.*

Hyrwyddo ymddygiad da yn Ysgol Nefyn

Promoting good behaviour at Ysgol Nefyn

"Angor gadarn cyn hwylio'r don."

CYFLWYNIAD GAN MR JONES.

Annwyl Rieni,

Er mwyn i'r plant ddysgu yn dda ac i bawb fod yn hapus yn yr ysgol, mae'n bwysig bod ymddygiad y plant hefyd yn dda.

Oherwydd hyn, rydym wedi creu y pamffled yma fel eich bod fel rhieni yn gwybod pa ffyrdd rydym yn hyrwyddo ymddygiad da yn Ysgol Nefyn.

Fel gwelwch, rydym yn canolbwyntio ar wobrwyo ymddygiad da. Mae hyn yn creu awyrgylch positif yn yr ysgol. Fe welwch hefyd sut rydym yn sancsiynu'r plant os bydd rheolau aur yr ysgol yn cael eu torri. Edrychaf ymlaen i weithio hefo chi a'r plant i sicrhau fod Ysgol Nefyn yn parhau i fod yn ysgol hapus a chartrefol.

Yn gywir,
Alan Jones

INTRODUCTION BY MR JONES

Dear Parents,

In order that children learn well and that everyone is happy at school, it is important that children's behaviour is good too.

Because of this, we have created this pamphlet so that you as parents know about the ways in which we promote good behaviour at Ysgol Nefyn.

As you see, we concentrate on rewarding good behaviour. This generates a positive atmosphere at school. You will also see how we sanction children if the school's golden rules are broken. I look forward to working with you and the children to ensure that Ysgol Nefyn continues to be a happy and homely school.

Yours sincerely,
Alan Jones

RHEOLAU AUR YSGOL NEFYN

1. Rydym yn blant addfwyn.
2. Rydym yn garedig a chymwynasgar.
3. Rydym yn gwrando.
4. Rydym yn onest.
5. Rydym yn gwneud ein gorau ym mhopeth.
6. Rydym yn edrych ar ôl eiddo.

HYRWYDDO YMDDYGIAD DA

TYSTYSGRIF ARBENNIG

Rydym yn casglu marciau llwyddiant yn y dosbarthiadau am ymddygiad, ymdrech neu gwaith da. Yn nosbarthiadau y cyfnod sylfaen maent yn casglu bathodynau ar eu cerdiau clod. Ar ol cael 10 marc/ bathodyn, fe fydd y plant yn cael tystysgrif arbennig yn y gwasanaeth gan Mr Jones.

AMSER AUR

Mae plant Nefyn yn ymddwyn yn ardderchog. Oherwydd hyn byddant yn cael eu gwobrwyo gydag amser aur ar brynhawn Gwener. Fe fydd y plant yn cael dewis o bethau neis i'w gwneud fel chwarae gemau, gwneud lluniau a.y.y.b.

Ar yr adegau prin pan na fydd y plant yn dewis cadw at y rheolau aur, yna byddant yn colli 5 munud o amser aur. Ond fe all y plentyn ennill y 5 munud yna yn ôl trwy ddangos ymdrech ac ymddwyn fel y dylai.

Os na fydd ymddygiad y plentyn yn gwella fe fyddwn yn ystyried strategaethau eraill e.e. aros i fewn amser chwarae. Mewn achosion eithafol fe allwn gysylltu i drafod sefyllfa gyda rhieni.

THE GOLDEN RULES OF YSGOL NEFYN

1. We are gentle children.
2. We are kind and helpful.
3. We listen.
4. We are honest.
5. We do our best in everything.
6. We look after property.

PROMOTING GOOD BEHAVIOUR

A SPECIAL CERTIFICATE

We collect marks for good behaviour, effort or success in their school work. In the foundation stage they collect stickers on their achievement card After getting 10 marks/stickers, the children will receive a special certificate in the assembly from Mr Jones.

GOLDEN TIME

The behaviour of the children at Nefyn is excellent. As a consequence, they are rewarded with golden time on Friday afternoons. The children will get to choose from a number of nice activities such as playing games, drawing pictures, etc.

On the rare occasions when children choose not to stick to the golden rules, they will lose 5 minutes of golden time. However, the child can regain these 5 minutes by displaying effort and behaving as he/she should.

If a child's behaviour doesn't improve we may use alternative strategies such as loss of playtime. In some severe circumstances we might contact parents to discuss a matter.